

Ymgynghoriad ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau

Ail adroddiad yr ymgynghoriad

1. Adroddiad atodol yw hwn, yn dadansoddi'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau, yn canolbwyntio'n benodol ar yr adborth a gawsom mewn perthynas â'r canllawiau drafft i gefnogi safon 1 y safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion yn ymwneud ag enghreifftiau perthnasol dan safon 1 y safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol (*Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo*) a'r effaith y credir y bydd y newid hwnnw yn ei chael ar weithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol.
2. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am ddeuddeng wythnos, gan gychwyn ar 13 Rhagfyr 2016 a dod i ben ar 7 Mawrth 2017. Fel y gwnaed gyda'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad, rydym wedi ystyried pob ymateb a ddaeth i law, yn ogystal â nodiadau o ddigwyddiadau rhanddeiliaid a chyfarfodydd un wrth un wrth ddatblygu ein dadansoddiad ansoddol o'r materion a'r themâu'n ymwneud â'r canllawiau hyn.
3. Yn ogystal â'r dadansoddiad ansoddol yn yr adroddiad hwn a'r adroddiad cyntaf, roedd yr adroddiad cyntaf hefyd yn cynnwys dadansoddiad meintiol o bob ymateb a gafwyd gan unigolion a chefnidir yr ymatebwyr unigol. Er mwyn rhoi'r cyd-destun, rhoddir dadansoddiad meintiol y cwestiwn ynghylch y canllawiau drafft isod.
4. Mae gwybodaeth fanwl am y broses ymgynghori ac ymglymu, ein dull dadansoddi ac adrodd, a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gael yn yr adroddiad cyntaf y gellir ei weld [yma](#).

Cefndir polisi

5. Ar 6 April 2017, nododd y Cyngor adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad ac fe drafodwyd y prif themâu a materion o fewn yr adroddiad. Nododd y Cyngor hefyd ddadansoddiad effaith y dull a gynigiwyd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn y cyfarfod, cymeradwyodd y Cyngor eiriad diwygiedig yr enghreifftiau dan safon 1 y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, a ddaeth wedyn i rym ar 12 Mai 2017.
6. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r enghreifftiau dan safon 1, gofynnem hefyd am adborth ar y canllawiau cefnogol drafft. Nod y canllawiau hyn yw rhoi cymorth i weithwyr fferyllol proffesiynol pan fônt yn defnyddio'u crebwyll i gyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Mae'r canllawiau wedi eu creu i adlewyrchu'r ystod eang o sefyllfaoedd lled gallai crefydd, gwerthoedd personol a chredoau gweithwyr fferyllol effeithio ar eu parodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethau ac i roi cyngor ynghylch yr ymddygiad a ddisgwyllir gan weithwyr fferyllol proffesiynol wrth weithredu'r safonau. Yn benodol, gofynnem i ymatebwyr a oeddent o'r farn bod y canllawiau'n adlewyrchu'n ddigonol yr ystod eang o sefyllfaoedd y gallai gweithwyr fferyllol proffesiynol eu cael eu hunain ynddynt, ac a oedd unrhyw beth arall, nad oedd eisoes yn y canllawiau, a fyddai o fudd iddynt.

- Mae amlinelliad manylach o'r cefndir a'r cyd-destun polisi perthnasol yn adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad.

A: Dadansoddiad o ymatebon unigol i'r holiadur ar-lein

- Roedd holiadur yr ymgynghoriad yn cynnwys dau gwestiwn yn canolbwyntio'n benodol ar y canllawiau (gydag opsiwn ydw/nac ydw fel ymateb), ynghyd â chwestiwn agored ynghylch beth arall, os unrhyw beth, y dylid ei gynnwys.
- Mae rhagor o fanylion ynghylch ein dull o ddadansoddi'r atebion meintiol, deuaidd yn adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad.
- Dylid nodi bod ein dadansoddiad meintiol yn amlygu gwahaniaethau rhwng dau bâr o grwpiau o ymatebwyr: aelodau'r cyhoedd a gweithwyr fferyllol; ac ymatebwyr â chredoau crefyddol ac ymatebwyr heb gredoau crefyddol. Mae'r rhesymeg dros gyflwyno canlyniadau yn ôl y grwpiau hyn, a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r grwpiau hyn wedi eu hegluro'n fanylach yn adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad.

Cwestiwn ymgynghoriad

C2: A yw'r canllaw diwygiedig yn cwmpasu'n ddigonol yr ystod eang o sefyllfaoedd y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol fod ynddynt?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Ydy	1716	653	987	897	680
Nac ydy	1335	871	357	959	77

- O ran y cwestiwn yn ymwneud yn benodol â'r canllawiau, roedd 56.2% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu'n ddigonol yr ystod eang o sefyllfaoedd y gallai gweithwyr fferyllol proffesiynol eu cael eu hunain ynddynt. Roedd, fodd bynnag, rai gwahaniaethau rhwng aelodau'r cyhoedd ar y naill law, lle'r oedd 42.8% yn cytuno; a gweithwyr fferyllol proffesiynol ar y llaw arall, lle'r oedd 73.4% yn cytuno. Mae'r gwahaniaeth yn amlycach eto rhwng y rhai â chredoau crefyddol a'r rhai heb gredoau crefyddol, gyda 48.3% o'r rhai â chredoau crefyddol yn cytuno, o'i gymharu ag 89.8% o'r rhai heb gredoau crefyddol.

B: Dadansoddiad ansoddol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd y cwestiwn agored yn caniatáu i ymatebwyr ymhelaethu ar yr hyn yr hoffent, os unrhyw beth, ei ychwanegu at y canllawiau.
- Mae adran hon yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad ansoddol o'r adborth a glywom yn ymwneud yn benodol â'r canllawiau. Mae hyn yn cynnwys adborth gan sefydliadau ac unigolion, yn ogystal ag mewn digwyddiadau ymglymu a chyfarfodydd gyda sefydliadau.
- Mae ein dull dadansoddi ansoddol wedi ei egluro'n fanylach yn adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad.

Yr hyn a glywom: y farn ar y canllawiau drafft

15. Clywom fod y canllawiau yn adlewyrchu'r ystod eang o sefyllfaoedd lle gallai crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau gweithwyr fferyllol proffesiynol effeithio ar eu parodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethau. Clywom y gallai fod gan weithwyr fferyllol proffesiynol wrthwynebiad i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, gyda rhai yn rhoi enghreifftiau go iawn, a bod llawer o'r farn bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y canllawiau. Roedd llawer o ymatebwyr yn nodi eu bod yn teimlo'n gadarnhaol am y ffaith nad yw'r canllawiau yn canolbwyntio'n unig ar ddulliau atal cenhedlu brys, ond yn cyfeirio at ystod o wasanaethau a sefyllfaoedd eraill a allai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
16. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau at ei gilydd yn gynhwysfawr, ac yn egluro'r ffactorau i'w hystyried gan weithwyr fferyllol proffesiynol yn glir. Nododd sawl sefydliad fferyllol a gweithiwr fferyllol proffesiynol bod y canllawiau'n adlewyrchu eu barn nhw a'u disgwyliadau nhw o'r ffordd y dylai gweithwyr fferyllol reoli'r sefyllfaoedd hyn yn ymarferol.
17. Yn benodol roedd sefydliadau'n cynrychioli gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â llawer o'r cyhoedd, yn teimlo bod y canllawiau yn adlewyrchu'r hyn y byddai defnyddwyr a chleifion yn ei ddisgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol, ac roedden nhw'n croesawu'r pwyslais ar drin pobl fel unigolion, gyda'u gwerthoedd, anghenion a phryderon eu hunain. Roedd y grwpiau hyn hefyd yn croesawu'r canllawiau ar feysydd penodol, megis cyfathrebu, preifatrwydd a chyfrinachedd, yr oedden nhw'n eu hystyried yn hanfodol bwysig i ddefnyddwyr.
18. Nododd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, eu bod yn teimlo nad oedd y canllawiau yn ymdrin â phob mater perthnasol nac yn rhoi digon o fanylion am y rhain. Cafwyd nifer o awgrymiadau am ffyrdd y gellid gwella ar y canllawiau, neu ymhelaethu arnynt. Mae rhagor o fanylion am hyn isod.

Derbyn cyfrifoldeb, gan gynnwys atgyfeiriadau

19. Roedd llawer o ymatebwyr yn credu nad oedd y canllawiau yn rhy haearnidd neu anhyblyg a'u bod yn caniatáu i weithwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll eu hunain wrth benderfynu ar yr hyn fyddai'n addas ar gyfer pobl yn eu gofal, mewn gwahanol sefyllfaoedd. O ran effaith bosibl y canllawiau, roedd rhai gweithwyr fferyllol proffesiynol o'r farn y byddent yn eu helpu i lywio'u ffordd drwy sefyllfaoedd dyrys ac yn helpu defnyddwyr i ddeall yr hyn y gallent ei ddisgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol.
20. Yn groes i hyn, roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai'r canllawiau fod yn fwy manwl a nodi'n fwy eglur sut yn union y dylid defnyddio'r safon yn ymarferol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd y canllawiau'n mynd yn ddigon pell i egluro sut mae disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol gymryd cyfrifoldeb i sicrhau na chyfaddawdir gofal yn sgil gwerthoedd a chredoau personol, ac roeddent yn gofyn am fwy o eglurder ar y pwynt hwn.
21. Roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys nifer o sefydliadau fferyllol, yn teimlo y gallai'r geiriad ynghylch atgyfeirio fod yn fwy penodol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r canllawiau nodi'n glir yr hyn fyddai'n ddisgwyledig gan weithwyr fferyllol pan fo posibilrwydd y gallai eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau effeithio ar eu parodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethu, ac yn benodol a fyddai cyfeirio person at weithiwr fferyllol arall neu ddarparwr gwasanaeth arall yn opsiwn. Roedd llawer yn teimlo y dylai'r canllawiau roi rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau y byddai atgyfeirio fel hynny yn opsiwn addas ynddynt, pan nad yw gwasanaeth yn hygyrch, er enghraifft, neu ddim ar gael yn rhywle arall.
22. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r canllawiau nodi'n glir na ddylai gweithwyr fferyllol beryglu gofal os nad ydynt yn mynd i ddarparu'r gwasanaeth eu hunain, yn enwedig wrth ystyried pwysigrwydd amseru gyda rhai gwasanaethau. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r canllawiau gynnwys gofyniad i

gofnodi trafodaethau a chadw llwybr archwilio clir, yn enwedig mewn amgylchiadau pan na fyddai gweithwyr fferyllol yn darparu'r gwasanaeth y gofynnwyd amdano.

23. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o ganllawiau ar gyfer gweithwyr fferyllol sy'n gweithio mewn fferyllfeydd mwy ynysig, i'w helpu nhw neu eu cyflogwyr, i roi trefniadau gwaith yn eu lle i sicrhau cysondeb darpariaeth.
24. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai'r dull newydd greu sefyllfaoedd lle gallai defnyddwyr fferyllol fynnu ar unrhyw wasanaeth y dymument hyd yn oed pan nad oedd y gwasanaethau hynny'n cael eu hystyried yn addas yn glinigol. Nododd eraill y gallai gwrthod gwasanaethau fod yn briodol, ac er budd y defnyddiwr, o ran ei anghenon clinigol. Mae hyn yn wahanol i wrthod darparu gwasanaeth ar sail foesol neu foesegol. Roedd nifer o ymatebwyr am i'r canllawiau egluro sut y dylid ymdrin â materion o'r fath ac esbonio'r hyn fyddai cyfrifoldebau'r gweithiwr fferyllol proffesiynol yn y cyd-destun hwn.
25. Soniodd ymatebwyr o bob grŵp gwahanol, gan gynnwys y cyhoedd, y dylid esbonio'r cyfrifoldebau yn glir yn y canllawiau, fel bod gan y sawl sydd yn ystyried mynd i weithio yn y proffesiwn, neu sydd ar fin ymuno, syniad clir o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan weithwyr fferyllol proffesiynol o gychwyn cyntaf eu gyrfa.
26. Roedd cyfran uchel o'r sylwadau'n ymwneud â'r ffordd y byddai gweithwyr fferyllol yn delio gyda gwahanol sefyllfaoedd, a sut y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys enghreifftiau neu astudiaethau achos i ddangos sut y byddai'r dull newydd yn gweithio yn ymarferol. Roedd llawer o'r sylwadau hyn yn gwneud cais cyffredinol am enghreifftiau, yn hytrach nag yn nodi meysydd penodol yr hoffent weld enghreifftiau yn eu darlunio.

Rôl cyflogwyr

27. Nododd llawer o ymatebwyr eu bod yn falch bod y canllawiau'n cydnabod pwysigrwydd rôl cyflogwyr. Fodd bynnag, teimlai rhai y gallai'r canllawiau fynd ymhellach i amlygu cyfrifoldebau cyflogwyr i greu a chynnal amgylcheddau gwaith teg. Roedd rhai'n teimlo y gallai hyn helpu i leihau risg camwahaniaethu neu aflonyddu ar weithwyr fferyllol ar sail eu crefydd neu gredo, neu'r hyn a dybir oedd eu crefydd neu gredo.
28. Gofynnodd rhai cyflogwyr am ragor o eglurder ac enghreifftiau o ran sut y byddai'r newid yn digwydd - o ran sefydliadau fferyllol a chyflogwyr yn gyffredinol ac yn fwy lleol o fewn gweithluoedd, yn enwedig mewn sefyllfaoedd pan fyddai'r newid yn effeithio ar gyflogaion y presennol. Roedd rhai ymatebwyr yn credu nad oedd unrhyw beth pellach i'w ychwanegu at y canllawiau.
29. Yn yr un modd, roedd nifer o ymatebwyr yn credu y dylai'r canllawiau gynnwys cyngor pellach ar faterion yn ymwneud â chyflogaeth, er enghraifft, sut byddai'r dull newydd yn effeithio ar recriwtio staff. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o wybodaeth i helpu cyflogwyr i ddeall a chymhwyso'r gyfraith yn y maes hwn, gan gynnwys eu cyfrifoldeb yn y gweithle, hawliau staff (gan gynnwys ymgeiswyr am swyddi) a hawliau defnyddwyr y gwasanaethau.
30. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o ganllawiau ynghylch sut y dylai cyflogwyr gefnogi staff a rheoli gweithgareddau addoli yn y gweithle. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ganllawiau ar ddarparu gofal a chyngor sy'n ystyried gwerthoedd neu gredoau cleifion, neu sut gallai ffactorau diwylliannol neu gymdeithasol effeithio ar wasanaeth. Roedd enghreifftiau a nodwyd yn y ddau gyd-destun yma yn cynnwys ymprydio, defnyddio cynnyrch heb eu seilio ar anifeiliaid, a gweddio.

31. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylid bod yn fwy eglur ynghylch rôl y tîm fferyllol cyfan, gan gynnwys staff rheng flaen, y staff y bydd cleifion yn dod i gysylltiad â nhw gyntaf yn aml. Cododd hyn yng nghyd-destun hyfforddi'r tîm fferyllol cyfan mewn materion megis cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys iaith gywir y corff a thôn.

Arddull ac ieithwedd

32. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod tôn cyffredinol y canllawiau fel pe bai'n awgrymu bod crefydd, gwerthoedd personol a chredoau yn broblem, bron fel pe na bai ganddynt rôl mewn gofal iechyd. Roedden nhw'n teimlo bod y canllawiau yn fframio'r sefyllfa mewn ffordd negyddol, fel rhwystrau i ofal da.
33. Awgrymodd rhai y dylai'r geiriad ynghylch crefydd, gwerthoedd personol a chredoau fod yn fwy niwtral. Roedd eraill yn teimlo y dylai'r canllawiau wneud mwy i gydnabod hawliau gweithwyr fferyllol proffesiynol i ymarfer yn unol â'u crefydd, gwerthoedd personol a chredoau, a'r cyfraniad cadarnhaol y gall gwerthoedd a chredoau personol a chrefyddol ei wneud i ofal.

Materion cyfreithiol a rheoliadol eraill

34. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o wybodaeth neu gyngor ynghylch y fframwaith cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998, a deddfwriaeth yn ymwneud â chyflogaeth. Er i rai ymatebwyr gydnabod y cyfyngiadau sydd ar y rheoleiddiwr o ran rhoi cyngor cyfreithiol, roedd eraill yn teimlo y dylai'r canllawiau roi ragor o wybodaeth ynghylch deddfau cydraddoldeb a chyflogaeth, a sut y byddai'r rhain yn rhyngweithio gyda'r safonau a'r canllawiau.
35. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynghylch ymhlygiadau addasrwydd ymarfer pan na fo gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd y safonau, ac awgrymwyd y dylai hyn fod yn rhan o'r canllawiau. Roedd eraill yn teimlo y dylid ehangu'r canllawiau i gynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o fynegi pryderon am weithwyr fferyllol nad ydyn nhw'n cyrraedd y safonau newydd.
36. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y canllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, yr oedden nhw'n teimlo eu bod yn well. Roedd rhai'n teimlo y dylai'r canllawiau gynnwys ieithwedd oedd yn debycach i ganllawiau'r Cyngor hwnnw, gan gynnwys, yn benodol, dermau megis 'cydwybod' a 'gwrthwynebiad cydwybodol'.
37. I gloi, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai'r dull presennol achosi problemau pe bai, er enghraifft, ddeddfwriaeth ynghylch cymorth i farw yn newid, ac y dylai'r canllawiau fynd i'r afael â hyn. Nododd eraill y byddai'n annoeth i'r canllawiau geisio cynnwys pob peth a allai ddigwydd neu gyfeirio at newidiadau cyfreithiol damcaniaethol yn y dyfodol.